

# Fersiwn gryno o Gellir Cyflawni Unrhyw Beth gyda'r Gefnogaeth Gywir: mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd

## 1. Y cefndir

1. Gellir Cyflawni Unrhyw Beth yw ein hadroddiad sy'n ganlyniad ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth anabledd yng Nghymru. Mae'r fersiwn gryno hon wedi'i chynhyrchu i roi blas i chi o'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion. I gael manylion llawn, gan gynnwys sut y casglwyd y dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, gallwch edrych ar yr adroddiad llawn. Yn y fersiwn hon fe welwch:

- drosolwg byr o rai o'r themâu allweddol sy'n cael sylw yn yr adroddiad;
- ciplun o ddyfyniadau dethol o'r dystiolaeth a gawsom;
- rhestr o'r holl gasgliadau ac argymhellion a wnaed gennym i Lywodraeth Cymru.

### Cymorth a chyngor

Os oes materion yn yr adroddiad hwn sy'n effeithio arnoch, gallwch gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cyngor a chymorth yn y canllaw a ganlyn, a luniwyd gan Ymchwil y Senedd: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cymorth-i-bobl-anabl-canllaw-i-etholwyr/>



## laith

2. Pan fyddwn yn defnyddio'r term "anabl" rydym yn gyffredinol yn cyfeirio at y diffiniad eang sy'n cynnwys amrywiaeth o gyflyrau ac amhariadau gan gynnwys amhariadau synhwyrdd, amhariadau corfforol sy'n effeithio ar symudedd, anawsterau dysgu, trallod meddwl, salwch hirdymor/cronig, a niwroamrywiaeth.

## Beth yw'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd?

3. Y Bwlch Cyflogaeth Anabledd yw'r gwahaniaeth mewn pwyntiau canran yn y gyfradd gyflogaeth rhwng pob anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Rhwng 2025-16 a 2023-24, mae'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd yng Nghymru wedi lleihau o 35.4 pwynt canran i 30.9 pwynt canran. Mae gan Lywodraeth Cymru nod i ddileu'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd yn gyfan gwbl erbyn 2035.


## 2. Y canfyddiadau allweddol

### Y dull gweithredu cyffredinol

4. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod yn siomedig â chyflymder y newid. Canfuom fod dull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo hawliau pobl anabl mewn perygl o fod yn orfiwrocraidd a'i fod yn cael ei lywio gan brosesau. Er gwaethaf ymrwymiad clir y Llywodraeth i chwalu'r rhwystrau, mae'r cynnydd wedi bod yn rhy araf.

Rydym am i'r Llywodraeth droi rhai o'i hymrwymadau canmoladwy yn gamau gweithredu. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Hawliau Anabledd a thrwy droi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yn gyfraith.

Gweler Argymhelliad 1 a Chasgliad 2 i gael rhagor o wybodaeth.



"Mae yna deimlad o, 'Pryd fydd pethau'n newid? Pryd fydd fy mywyd fel person anabl yn gwella?'"

- Rhian Davies  
Anabledd Cymru

## Cyflogwyr a'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd

Canfuom fod pobl anabl yn parhau i wynebu nifer o rwystrau, er gwaethaf newid cyffredinol o ran gweithio mwy hyblyg. Mae cyflogwyr yn allweddol i fynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau hyn, fodd bynnag, amrywiol yw'r ymwybyddiaeth o'r gyfraith a chydymffurfiaeth â hi o hyd.

**5.** Clywsom fod rhai yn amharod i ddatgelu eu nam neu anabledd i gyflogwyr. Rydyn ni eisiau gweld fod addasiadau rhesymol yn cael eu cynnig yn

rhagweithiol o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys yn ystod y cam recriwtio.

**6.** Mae hefyd yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r ymdrechion i hyrwyddo canllawiau gyda chyflogwyr. Dylai hyn helpu i herio rhai o'r camsyniadau cyffredin sy'n bodoli ynghylch cost addasiadau rhesymol. Canfuom mai dim ond £75 yr unigolyn yw cost gyfartalog addasiad rhesymol.

Gweler Argymhelliad 2 a Chasgliad 3 i gael rhagor o wybodaeth.

"Bu nifer o gamsyniadau ac ystrydebau o ran sut olwg sydd ar anabledd. Ac mae hynny'n golygu bod y bobl sy'n wynebu materion iechyd nad ydynt yn weledol yn ofni na fydd pobl eraill yn eu credu, neu does dim ganddyn nhw'r hyder i ofyn am addasiadau rhesymol."

- Isabel Linton  
Triniaeth Deg i Fenywod Cymru

## Cynllun Hyderus o ran Anabledd

**7.** Gwelsom broblemau y mae angen mynd i'r afael â hwy gyda'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, a gaiff ei gynnal yn y DU, er mwyn adfer enw da y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r ffordd y mae'n gwirio bod cyflogwyr yn gwneud yr hyn y maent yn dweud y byddant yn ei wneud a chodi'r safon o ran yr hyn y disgwylir i gyflogwyr ei gyflawni.

Gweler Argymhelliad 4 i gael rhagor o wybodaeth.

## Cefnogi cyfleoedd gwaith

**8.** Un o'r negeseuon cliraf a gawsom oedd y gallai'r sector cyhoeddus wneud rhagor i helpu i gau'r bwlch cyflogaeth. Rydym yn pryderu, yn hytrach na sbarduno llwybr, fod rhannau o'r sector cyhoeddus yn methu â chydabod pwysigrwydd y nod yn y maes hwn.

**"O fewn y gymuned anabl, nid galluogrwydd yw'r broblem. Y broblem fwyaf yw'r diffyg cyfleoedd."**

**- Dan Biddle  
Ymgyrchydd o blaid hawliau i bobl anabl ac entrepreneur**

**9.** Rydym am weld Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff sector cyhoeddus datganoledig wneud rhagor i helpu i gyrraedd y nod o gau'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd erbyn 2035.

Gweler Argymhelliad 5 i gael rhagor o wybodaeth.

**"Rwy'n teimlo'n gryf ynghylch y cynllun 'Hyderus o ran Anabledd'... oherwydd y mae'n nodi y dylai fod yn rhywbeth gwirfoddol. Yn hytrach, dylai fod yn fandadol, gyda chwota yn perthyn iddo, yn lle bod rhywun yn ticio blwch yn wirfoddol."**

**- Cyfranogwr mewn grŵp ffocws  
Caerdydd**

## Pontio o'r ysgol i fyd gwaith

**10.** Gwelsom fod angen gwneud rhagor i gefnogi plant a phobl ifanc wrth iddynt adael yr ysgol neu'r coleg a dechrau yn y gweithle. Roeddem yn hynod siomedig o glywed bod plant a phobl ifanc anabl o bosibl yn colli cyfleoedd o ran lleoliadau gwaith a chyfleoedd eraill. Mae angen gwell cyngor a chymorth ar blant a phobl ifanc pan ddaw'n amser gadael yr ysgol neu drefnu profiad gwaith.

**11.** Mae rhagor o hyblygrwydd o ran trefniadau ariannu hefyd yn allweddol, fel nad yw unrhyw un ag anghenion dysgu ychwanegol yn colli cyfleoedd i gael mynediad at gymorth gan y llywodraeth neu at brentisiaeth. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn ar yr un pryd â gweithredu argymhellion hanfodol

adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y pwnc hwn.<sup>1</sup>

"Rwyf bob amser wedi dweud, 'Gyda'r cymorth cywir, mae unrhyw beth yn bosibl.' Hefyd, rwyf bob amser wedi bod o'r farn nad yw awtistiaeth yn rhwystr rhag llwyddiant, ac os byddai cyrff sector cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a phob cyflogwr yn gallu gweld hynny, byddai'r gymdeithas yn well i bawb."

- Gerraint Jones-Griffiths  
Llysgennad Engage to Change

Gweler Casgliad 7 a Chasgliad 8 i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>1</sup> Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg [www.plant.a.phobl.ifanc.anabl yn.cael.mynediad.cyfartal.at.addysg.a.gofal.plant?](http://www.plant.a.phobl.ifanc.anabl yn.cael.mynediad.cyfartal.at.addysg.a.gofal.plant?) Gorffennaf 2024

### 3. Casgliadau ac argymhellion

**Conclusion 1.** Credwn yn gryf y dylai'r rhai sy'n gallu gweithio, ac sydd eisiau gweithio, allu derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gael mynediad at swyddi o ansawdd da a'u cadw.

#### Cynnydd a chydlyniaeth y dull gweithredu

---

**Recommendation 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod disgwyliadau pobl anabl yn cael eu bodloni drwy gyflawni ei hagenda polisi sydd wedi'i ddatgan, a hynny cyn diwedd y Chweched Senedd. Mae angen i ymrwymïadau canmoladwy droi'n gamau gweithredu pendant a fydd yn cynnwys:

- Cwblhau gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl ac unrhyw waith arall er mwyn datblygu a chyd-gynhyrchu polisi sy'n deillio o'r adroddiad 'Drws ar Glo' cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Mai 2025 fan bellaf.
- Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sy'n ystyried amrywiadau rhanbarthol yn y Bwlch Cyflogaeth Anabledd ac sy'n cynnwys targedau ac amserlen ar gyfer gweithredu cyn gynted â phosibl, ac erbyn mis Mai 2025 fan bellaf.
- Gwireddu ei hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu drwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru cyn diwedd y Chweched Senedd ym mis Ebrill 2026.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn gwrthod unrhyw un o'r camau yn yr argymhelliad hwn, dylai nodi yn ei hymateb pa gamau amgen y mae'n bwriadu eu cymryd fel camau lliniaru, ac er mwyn ceisio cyflawni'r nod cyffredinol, gan gynnwys amserlenni.

**Conclusion 2.** Dylid diweddarau rhestr Llywodraeth Cymru o bortffolios gweinidogol i sôn yn benodol am anabledd a hawliau pobl anabl fel cyfrifoldeb gweinidogol.

#### Ar gyflogwyr ac addasiadau

---

**Recommendation 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau presennol o fewn Busnes Cymru er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau'n cyd-fynd â'r nod cyffredinol o ddileu'r bwlch cyflogaeth anabledd erbyn 2035. Mae hyn yn cynnwys adolygu ffynonellau canllawiau cyfredol; sut mae canllawiau cyfredol yn cael eu hyrwyddo, a llwybrau

cwsmeriaid er mwyn creu cymaint o gyfleoedd â phosibl i godi ymwybyddiaeth pan fydd cyflogwyr yn rhyngweithio â gwasanaethau cymorth busnes. Dylid cynnal yr adolygiad yn gyflym a'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2025.

### **Ar agweddau a rhagdybiaethau**

---

**Conclusion 3.** Nodwn fod camsyniadau eang ac agweddau negyddol yn parhau yn y gweithle, er enghraifft, ynghylch y costau sy'n gysylltiedig ag addasiadau rhesymol. Mae angen manteisio ar bob cyfle i'w herio.

### **Ar Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl**

---

**Recommendation 3.** Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr Hyrwyddwyr Cyflogaeth Anabledd dylai Llywodraeth Cymru osod targedau ar gyfer eu gwaith, ac adrodd ar y rhain yn flynyddol. Dylai'r targedau ddarparu sail ar gyfer gwelliant parhaus a defnyddio metrigau mesuradwy gan gynnwys:

- cyfanswm nifer yr ymgysylltiadau â rhanddeiliaid allanol;
- cyfanswm nifer yr ymgysylltiadau sy'n arwain at gynigion parhaol o gyflogaeth;
- nifer yr ymgysylltiadau sy'n arwain at newidiadau mewn polisiau neu brosesau recriwtio a chadw.

Byddem yn disgwyl i'r argymhelliad hwn gael ei roi ar waith yn gyflym ac erbyn mis Gorffennaf 2025 fan bellaf.

### **Hyderus o ran Anabledd**

---

**Conclusion 4.** Down i'r casgliad fod angen diwygiadau os mai'r bwriad yw y bydd Hyderus o ran Anabledd neu gynllun tebyg yn ennill cefnogaeth a hyder pobl anabl. Rhaid i'r diwygiadau hyn flaenoriaethu trefniadau achredu cadarn a sicrhau canlyniadau ystyrlon i weithwyr anabl.

**Recommendation 4.** Rhaid i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau newidiadau brys i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon am effeithiolrwydd cyffredinol a lefelau ymddiriedaeth yn y Cynllun, yn arbennig o ran Lefel 1 a Lefel 2. Erbyn diwedd mis Ebrill 2025, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r canlynol yn fanwl:

- pa welliannau yr hoffai eu gweld i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd (gan gynnwys trefniadau achredu'r Cynllun);

- sut y mae'n bwriadu sicrhau'r newidiadau hyn, ac amserlen ar gyfer pryd y gallwn weld y gwelliannau wedi'u cyflwyno.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn methu â sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd o fewn strwythurau presennol, yna dylai roi ystyriaeth lawn i ddatblygu nod barcud uchelgeisiol newydd Cymreig sy'n ennyn parch cyflogwyr a gweithwyr yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar gynnydd o ran yr argymhelliad hwn yn gyffredinol erbyn mis Rhagfyr 2025.

### **Ar arddull gweithredu aml-sector**

---

**Recommendation 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn orfodol i gyrrff datganoledig y sector cyhoeddus wneud cyfraniad mwy sylweddol, pan fo hynny'n bosibl at y nod o ddileu'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd. Dylai hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol iddynt:

- adolygu eu polisiau a'u harferion i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl sydd ar ddod;
- gosod targed i ddod yn Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd o fewn amserlen benodol;
- cynnwys dileu'r bwlch cyflogaeth anabledd fel amcan ffurfiol yn eu cynlluniau llesiant.

Lle bo'n bosibl, dylid gweithredu'r argymhelliad hwn o fewn amserlen benodol a realistig yr awgrymwn y byddai erbyn diwedd 2025.

### **Ar y Cynllun Mynediad at Waith**

---

**Conclusion 5.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati mor fuan â phosibl i rannu ei phryderon am sut y gweithredir y cynllun Mynediad i Waith gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU ar lefel weinidogol, ac adrodd i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniadau'r trafodaethau hynny. Credwn ei bod yn rhesymol disgwyl y bydd y sgysiau hyn wedi digwydd cyn diwedd mis Ebrill 2025.

### **Ar gyflogaeth â chymorth**

---

**Conclusion 6.** Rydym yn cytuno y dylai darpariaeth cyflogaeth â chymorth yn y dyfodol adeiladu ar lwyddiant cynlluniau fel y prosiect Engage to Change, ac y dylai coetsio swyddi arbenigol fod yn flaenoriaeth ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.



## Ar gyngor a chymorth

---

**Conclusion 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei disgwyliad y dylid cynnig y cyfle i bob disgybl anabl ddysgu am y dewisiadau sydd ar gael o ran profiad gwaith a chyflogaeth.

## Ar gefnogaeth ar gyfer ADY

---

**Conclusion 8.** Mae'n amlwg bod trefniadau ariannu anhyblyg yn gwrthdaro ag anghenion plant a phobl ifanc anabl, yn enwedig pan fydd angen mwy na 2 flynedd arnynt i gwblhau eu hastudiaethau.

## Ar feini prawf cymhwystra

---

**Recommendation 6.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r bylchau, a chynnwys rhagor o hyblygrwydd ym meini prawf cymhwystra rhaglenni cymorth allweddol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Mae hyn yn cynnwys gosod terfyn oedran uwch ar gyfer pobl anabl ym mhob carfan yn yr iteriad nesaf o gynllun Twf Swyddi Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl ifanc anabl yn gallu cael cymorth ar yr amser cywir ac ar gyflymder priodol.

## Ar ddata a monitro

---

**Recommendation 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd (DDEU) yn gwella ei hymgysylltiad â'r sector hawliau anabledd ac yn adrodd ar y materion a'r bylchau data y bydd yn gweithio arnynt erbyn mis Mai 2025.

## Ar y bwlch cyflog anabledd

---

**Conclusion 9.** Rydym yn cytuno fod angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno trefn o adroddiadau gorfodol ar y bwlch cyflog anabledd ar gyfer cyflogwyr mawr yng Nghymru, ac rydm yn edrych ymlaen at pan fydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynigion cadarn maes o law. Yn y cyfamser, dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo cyrff cyhoeddus datganoledig i gyhoeddi adroddiadau'n rhagweithiol ar y bwlch cyflog anabledd, i wella ymwybyddiaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl yn y byd gwaith.